

23/04/2026

# Adroddiad Ansawdd Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd a safon y data



TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cynnwys

Cynnwys .....	2
Ynglŷn ag Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.....	3
Cyflwyniad i'r arolwg .....	3
Dulliau a ddefnyddiwyd.....	3
Pwrpas yr arolwg .....	3
Dulliau a ddefnyddiwyd.....	4
Cynnwys yr arolwg .....	8
Holiadur .....	8
Dyddiadur Teithio.....	8
Cryfderau a chyfyngiadau.....	9
Cryfderau .....	9
Cyfyngiadau.....	10
Cymhariaeth a chydlyniant.....	12
Cyfraddau ymateb.....	13
Teithiau a gofnodwyd.....	14
Cyfraddau ymateb yn ôl modd .....	15
Cywirdeb .....	16
Gwallau samplu.....	16
Dyluniad arolwg.....	16
Cyfnodau Hyder .....	16
Gwallau peidio â samplu.....	16
Gwall peidio ag ymateb .....	17
Gwall cwmpasu .....	17
Gwall mesur .....	17
Effeithiau modd.....	17
Gwall prosesu .....	18
Amseroldeb a phrydlondeb.....	18
Cyfrinachedd a diogelwch data.....	18
Cyfrinachedd data .....	18
Diogelwch .....	19
Hygyrchedd.....	19

# Ynglŷn ag Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

## Cyflwyniad i'r arolwg

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn arolwg mawr, blynyddol a gynlluniwyd i gasglu data ar agweddau ac ymddygiadau teithio gan bobl ledled Cymru ar hap. Mae'n cynnwys cwestiynau i ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwahanol ddulliau trafndiaeth, yn ogystal â dyddiadur teithio deuddydd.

Mae'r [Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol](#) (NatCen) yn gweithredu'r arolwg ar ran Trafnidiaeth Cymru (TrC).

Mae'r arolwg ar agor yn barhaus trwy gydol y flwyddyn, gyda swp newydd o ymatebwyr yn cael eu gwahodd i gymryd rhan bob wythnos. Bydd cyfanswm o 14,900 o aelwydydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan ym mlwyddyn arolwg 2025/26.

Fel yr amlinellir yn [Llwybr Newydd: Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2021](#) bydd yr arolwg yn darparu data dibynadwy a chadarn i Lywodraeth Cymru i olrhain cynnydd tuag at dargedau ac ymrwymadau trafndiaeth Llywodraeth Cymru.

## Dulliau a ddefnyddiwyd

Mae hwn yn arolwg gwe-gyntaf yn bennaf, gydag opsiynau cwblhau cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb ar gael hefyd. Gall hyd at ddau oedolyn fesul aelwyd gwblhau'r arolwg ar-lein. Dim ond un oedolyn fesul aelwyd all gymryd rhan dros y ffôn neu mewn cyfweiliad wyneb-yn-wyneb. Mae aelwydydd yn cael eu dewis ar hap gyda gwahoddiad wedi'i anfon drwy'r post.

Mae'r arolwg yn para 40 munud ar gyfartaledd. Cynigir taleb £10 i'r ymatebwyr fel diolch am gymryd rhan.

Lansiwyd yr arolwg ar 10 Mawrth 2025 a bydd yn derbyn ymatebion am 12 mis. Bydd y blynyddoedd nesaf o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Dewiswyd dyddiad 10 Mawrth fel y dyddiad lansio cynharaf posibl ar gyfer 2025, gyda blaenoriaeth i ddarparu dadansoddiad cyn gynted â phosibl.

Mae'r data rhagarweiniol a ryddhawyd ym mis Ebrill 2026 yn seiliedig ar y sypiau o'r chwe mis cyntaf o waith maes. Mae gan bob swp gyfnod gwaith maes wyth wythnos. Cynhaliwyd casglu data ar gyfer y sypiau hyn rhwng 10 Mawrth a 22 Hydref 2025.

Rydym yn disgwyl cyhoeddi data blynyddol yr Arolwg Teithio yn hydref 2026. Yn dilyn hyn, bydd cyhoeddiadau yn y dyfodol yn flynyddol.

## Pwrpas yr arolwg

Ers 2012/13, ni chynhaliwyd arolwg teithio sy'n cwmpasu Cymru. O ganlyniad, mae data cyfyngedig ar gael i fonitro a gwerthuso polisiau a mentrau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Nod Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yw mynd i'r afael â'r bwch data hwn trwy gasglu gwybodaeth am sut, pam, pryd a ble mae pobl yn teithio, yn ogystal ag agweddau unigolion a boddhad â gwahanol ddulliau trafniadaeth. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys casglu data ar gyfer mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y [Fframwaith Monitro Strategaeth Drafniadaeth Cymru](#), [Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2](#) ac yn y Cynlluniau Trafniadaeth Rhanbarthol a gynhrychir gan y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol.

Yn ogystal â'r sefydliadau hyn, mae ystod eang o ddefnyddwyr eraill yr arolwg, gan gynnwys:

- cynllunwyr trafniadaeth, teithio llesol a grwpiau trafniadaeth gyhoeddus
- awdurdodau lleol ledled Cymru, sefydliadau llywodraeth leol ac lechyd Cyhoeddus Cymru
- sefydliadau sector cyhoeddus eraill
- academyddion
- cysylltiad data â [Secure Anonymised Information Linkage \(SAIL\)](#) a [Gwasanaeth Data y DU](#)
- y cyfryngau
- aelodau o'r cyhoedd.

Mae data blynyddol yn cael ei adneuo bob blwyddyn i Archif Data y DU, er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n hygyrch at ddibenion ymchwil. Mae canlyniadau hefyd yn cael eu cysylltu â setiau data eraill drwy amgylcheddau ymchwil diogel, er enghraifft y SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Gall ymatebwyr optio allan o gael eu canlyniadau wedi'u cysylltu os dymunant.

## Dulliau a ddefnyddiwyd

Tabl 1: Dulliau a ddefnyddiwyd

Pwnc	Manylion
Beth mae'r arolwg yn ei fesur?	<p>Mae'r arolwg yn casglu data ar ymddygiad ac agweddau teithio gan ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwahanol ddulliau trafniadaeth o bob cwr o Gymru.</p> <p>Mae cwestiynau demograffig hefyd wedi'u cynnwys i ganiatáu dadansoddiad yn ôl ardal ddaearyddol neu yn ôl nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Dim ond cyfeiriadau yng Nghymru sydd wedi'u gwahodd i gymryd rhan.</p> <p>Mae cynnwys a deunyddiau yr arolwg ar gael ar y we. Mae hyn yn cynnwys y sgrïpt cwestiwn a'r llythyrau a anfonwyd at aelwydydd.</p>

Pwnc	Manylion
Y dyddiadur teithio	<p>Mae'r arolwg yma'n cynnwys dyddiadur teithio lle mae'r ymatebwyr yn manylu ar y teithiau a wnaethant dros y ddau ddiwrnod diwethaf. Mae ymatebwyr yn cofnodi'r lleoliadau yr ymwelwyd â nhw gan ddefnyddio map rhyngweithiol. Maent yn darparu gwybodaeth am ddiben y daith a'r dulliau trafnidiaeth a ddefnyddir, ochr-yn-ochr â chwestiynau modd-benodol.</p> <p>Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer cyfran y teithiau yn ôl gwahanol ddulliau, y pellter cyfartalog a deithiwyd fesul person a nifer y teithiau amlfoddol.</p> <p>Dim ond teithiau sy'n dechrau a/neu sy'n gorffen yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddi. Mae teithiau sy'n digwydd yn gyfan gwbl y tu allan i Gymru wedi'u dileu.</p>
Dulliau i'w cwblhau	<p>Gellir cwblhau'r arolwg ar-lein, ar y ffôn (opsiwn dewisol) neu mewn cyfweiliad wyneb-yn-wyneb.</p>
Amllder	<p>Mae data yn cael ei gasglu'n barhaus trwy gydol blwyddyn yr arolwg, gyda swp newydd o aelwydydd yn cael eu gwahodd i gyfranogi bob wythnos.</p> <p>Rydym wedi cyhoeddi canlyniadau rhagarweiniol ym mis Ebrill 2026, gan ddefnyddio ymatebion o chwe mis cyntaf blwyddyn yr arolwg. Disgwylir i ddata 12 mis terfynol gael ei gyhoeddi yn hydref 2026. Bydd data ar gyfer blynyddoedd arolwg dilynol yn cael eu cyhoeddi bob hydref.</p>
Maint y sampl a'r gyfradd ymateb	<p>Gwahoddwyd cyfanswm o 7,094 o aelwydydd i gymryd rhan yn yr Arolwg Teithio yn ystod chwe mis cyntaf cyfnod yr arolwg.</p> <p>O hyn, mae gan 2,688 o aelwydydd o leiaf un unigolyn sy'n cwblhau'r arolwg, ac mae 3,132 o unigolion wedi cwblhau'r arolwg.</p> <p>Yn gyfan gwbl, bydd 14,900 o aelwydydd yn cael eu gwahodd i gymryd rhan drwy gydol blwyddyn lawn yr arolwg.</p>
Ffrâm enghreifftiol	<p>Caiff cyfeiriadau eu samplu ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF) y Post Brenhinol. Mae'r ffeil yn rhestr o holl gyfeiriadau yn y DU (ac eithrio llety sefydliadol). Dim ond cyfeiriadau ar gyfer Cymru a ddefnyddiwyd.</p> <p>Rhaid i ymatebwyr fod dros 16 oed, ac ni chaniateir dirprwyo cwblhau'r arolwg.</p>

Pwnc	Manylion
Dyluniad sampl	<p>Mae Arolwg Teithio Cymru wedi'i gynllunio i gynhyrchu sampl gynrychioliadol o unigolion sy'n byw yng Nghymru ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.</p> <p>Mae gwahanol feini prawf dewis unigol yn dibynnu ar y dull o gwblhau.</p> <p>Ar gyfer ymatebwyr sy'n cwblhau trwy'r we, gall hyd at ddau unigolyn gwblhau'r arolwg. Nid oes dewis unigol.</p> <p>Ar gyfer cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, dewisir un aelod o'r aelwyd ar hap gan ddefnyddio grid Kish.</p> <p>Mae cyfweiliadau ffôn yn opsiwn dewisol ar ôl derbyn llythyr gwahoddiad. Dim ond un unigolyn fesul aelwyd all ei gwblhau os dewisir cyfweiliad ffôn.</p>
Gorsamplu	<p>Poblogaeth canolbarth Cymru yw 6.6% o boblogaeth Cymru. Mae hyn yn llawer llai na'r tri rhanbarth arall. Rydym wedi gorsamplu canolbarth Cymru, gan gyfrif am 9.9% o'r sampl a gyhoeddwyd. Rydym yn disgwyl maint sampl cyfateb i 400 ymateb ar gyfer canolbarth Cymru.</p>
Uned samplu	<p>Mae'r arolwg yn arolwg ar lefel unigol.</p>
Pwysoli	<p>Ceir dwy set o bwysoli: pwysoli cyfweiliad a phwysoli dyddiadur.</p> <p>Defnyddir pwysoli cyfweiliad, a gynhyrchir ar lefel unigol, i ystyried tebygolrwydd dethol anghyfartal ar gyfer gwahanol ddiffyg ymatebion (e.e. i sicrhau bod dosbarthiadau oedran a rhywedd yn cyfateb i ddosbarthiadau'r rhanbarth). Mae'r pwysoli hyn hefyd yn ystyried y gwahaniaethau rhwng ymatebwyr mewn amgylchedd gwe ac wyneb-yn-wyneb.</p> <p>Cynhyrchir pwysoli dyddiadur ar lefel y daith i sicrhau lledaeniad cyfartal dros wythnos, ac i reoli tanadrodd ar yr ail ddiwrnod dyddiadur.</p> <p>Mae'r pwysoli yma wedi'u cynhyrchu gan ddefnyddio'r set ddata chwe mis ac felly byddant yn cael eu haddasu ar gyfer cyhoeddiadau blynyddol.</p>

Pwnc	Manylion
Priodoli	<p>Mewn data a gasglwyd o'r dyddiadur teithio, mae pellter y daith wedi'i briodoli lle nad yw'r tarddiad neu'r gyrchfan yn adnabyddadwy. Defnyddiwyd dau ddull priodoli.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r ymatebydd wedi cofnodi teithiau ar yr un dyddiadur y diwrnod cyn ac ar ôl y daith broblemus, defnyddir y canolbwynt rhwng tarddiad y cyntaf a chyrchfan yr olaf.</li> <li>Os nad yw'r ymddygiad teithio a gofnodwyd yn caniatáu i'r canolbwynt gael ei ddefnyddio, yna defnyddir y pellter taith cymedrig yn ôl modd .</li> </ol> <p>Mae pellter y daith wedi'i briodoli ar gyfer 3.5% o'r teithiau a gofnodwyd, a 4.1% o gyfanswm y pellter a deithiwyd.</p>
Allbwyntiau	<p>Mae rhai parau tarddiad-cyrchfan, a nodwyd yn flaenorol fel allanol, wedi'u haddasu lle mae lleoliad gyda'r un enw neu enw tebyg wedi'i ddewis yn anghywir (er enghraifft, dewis New Quay yng Nghernyw yn hytrach na Ceinewydd yng Ngheredigion). Mae hyn yn cael ei wneud dim ond lle mae'r gwall yn glir ac yn amlwg gyda datrysiad syml. Ar gyfer y data a gynhwysir yn y datganiad rhagarweiniol hwn, digwyddodd y cywiriadau hyn ar gyfer llai na 15 o deithiau.</p>
Newidynnau sy'n deillio	<p>Mae newidyn deillio ar gyfer teithiau cymudo wedi'i greu. Mae'r newidyn hwn yn cyfuno dibenion y daith "mynd i'r gwaith" ac is-sampl o deithiau "dychwelyd adref", lle mae'r ymatebydd wedi teithio i'w gweithle o'r blaen.</p> <p>Mae teithiau "dychwelyd adref" eraill wedi'u hailgodio fel teithiau "gwyliau neu daith ddydd" lle mae'r ymatebydd yn dychwelyd o wyliau neu daith ddydd neu lle mae ei daith gyntaf o leoliad nad yw'n gartref i gartref.</p>
Cwmpas daearyddol	<p>Mae'r set ddata chwe mis yn cynnwys data yn bennaf ar lefel genedlaethol. Mae rhai allbynnau ar gael ar lefel fwy manwl, lle mae maint y sampl yn caniatáu. Bydd y set ddata flynyddol, i'w chyhoeddi yn hydref 2026, yn cynnwys mwy o ddadansoddiadau daearyddol.</p>

# Cynnwys yr arolwg

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dwy elfen graidd: holiadur a dyddiadur teithio, wedi'u cyflwyno mewn un arolwg.

## Holiadur

Mae'r holiadur yn casglu gwybodaeth am agweddau ymatebwyr tuag at wahanol ddulliau trafnidiaeth, gan gynnwys boddhad ar draws ystod o elfennau dull penodol a'u teimladau o ddiogelwch a chroeso. Rydym hefyd yn casglu data am sŵn trafnidiaeth, fforddiadwyedd a hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus, a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector trafnidiaeth. Mae data personol, gan gynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig, yn cael eu cofnodi i ddarparu mewnwelediad ychwanegol yn ystod y dadansoddiad.

Casglir data ar y dulliau trafnidiaeth canlynol:

- Cerdded ac olwynio
- Beicio
- Bws
- Trên
- Trafnidiaeth Gymunedol
- Tacsï
- Car (naill ai fel gyrrwr neu deithiwr)
- Awyren
- Cwch neu fferi.

## Dyddiadur Teithio

Mae ymddygiad teithio yn cael ei gofnodi mewn dyddiadur teithio sy'n cwmpasu'r ddau ddiwrnod blaenorol. Gofynnir i ymatebwyr gofnodi ble aethant, dibenion eu taith, a'r dulliau trafnidiaeth a ddefnyddiwyd i gyrraedd eu cyrchfannau. Mae gwybodaeth ychwanegol sy'n benodol i'r daith fel math o danwydd car, pris eu taith ar drafnidiaeth gyhoeddus, a'r dulliau a ddefnyddir i ac o safle bysiau neu orsaf drenau hefyd yn cael eu cofnodi.

Dim ond teithiau sy'n dechrau a/neu sy'n gorffen yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dadansoddi. Mae teithiau sy'n digwydd yn gyfan gwbl y tu allan i Gymru wedi'u dileu.

Mae ymatebwyr sy'n cwblhau'r arolwg ar y we neu wyneb yn wyneb yn defnyddio teclyn map rhyngweithiol i gofnodi eu teithiau. Gan ddefnyddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API) Mapiau Arolwg Ordnans, ochr-yn-ochr â chronfeydd data API enwau a lleoedd yr Arolwg Ordnans, gall ymatebwyr ddewis eu cyrchfannau ar fap. Fel arall, efallai y byddant yn chwilio am leoliad neu ardal gan ddefnyddio'r bar chwilio. Trwy nodi pwyntiau penodol fel eu cyrchfan, rydym yn cyfuno tarddiad gwybodaeth, cyrchfan a modd trafnidiaeth i gyfrifo'r pellter a deithiwyd gan ddefnyddio [TravelTime Routes API](#).

Mae'r map rhyngweithiol angen cysylltiad rhyngrwyd sefydlog i'w gwblhau. Lle nad yw hyn ar gael ar gyfer cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb, gall ymatebwyr gwblhau'r arolwg gan ddefnyddio dyddiadur teithio all-lein. Mae hyn yn ailadrodd y cwestiynau a ofynnwyd yn y dyddiadur ar-lein. Mae cyrchfannau yn cael eu cofnodi gyda chymaint o fanylion â phosibl a'u cofnodi gan gyfweilwyr gweithwyr maes fel rhan o'r prosesu data ôl-arolwg. Yn gyfan gwbl, mae 12.4% o'r ymatebwyr wedi cwblhau'r arolwg gan ddefnyddio'r dewis amgen hwn.

## Cryfderau a chyfyngiadau

### Cryfderau

**Data patrwm teithio manwl a gasglwyd:** Mae Arolwg Teithio Cymru yn casglu data teithio manwl gan ymatebwyr i ddeall sut, pam, ble a phryd y teithiodd pobl yn y dyddiadur teithio deuddydd. Nid oes unrhyw ffynhonnell ddata arall yn casglu'r wybodaeth hon ar gyfer Cymru.

Mae'r data rydym yn ei gasglu yn cael ei ddefnyddio i fonitro ymrwymadau a wnaed yn Llwybr Newydd, Cyllideb Carbon Sero Net Cymru 2 a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a gyhoeddir gan Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r data hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer monitro a gwerthuso a modelu trafndiaeth o fewn TrC.

**Golwg gyfannol ar agweddau ac ymddygiadau trafndiaeth:** Yn ogystal â'r data a gesglir yn y dyddiadur teithio, mae'r Arolwg Teithio yn cofnodi agweddau a lefelau boddhad gan ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwahanol ddulliau trafndiaeth. Mae'r cyfuniad yn sicrhau bod yr arolwg yn casglu gwybodaeth fanwl am sut a pham mae pobl yn rhyngweithio â'r rhwydwaith trafndiaeth.

**Sampl fawr a chynrychioladol:** Mae gan yr arolwg sampl fawr a chyfradd ymateb aelwydydd o 41.3%, gan gynhyrchu canlyniadau sy'n gynrychioliadol o boblogaeth Cymru. Mae hyn yn caniatáu dadansoddiad cadarn ar lefel genedlaethol o'r set ddata ragarweiniol. Bydd y set ddata flynyddol yn cynnwys dadansoddiad yn ôl gwahanol ddemograffeg megis oedran, rhywedd a rhanbarth.

**Cynhwysiant a hygyrchedd:** Fel sampl ar hap haenog, mae gan bob cartref yng Nghymru debygolrwydd hysbys o gael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg. Mae llythyrau yn ddwyieithog, fel y mae holl gynnwys yr arolwg. Mae llythrennau print bras neu Braille ar gael i aelwydydd gwahoddedig.

Mae'r fersiwn ar-lein o'r arolwg wedi'i hasesu yn erbyn y Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG) 2.2., gyda [Datganiad Hygyrchedd](#) cysylltiedig wedi'i gyhoeddi. Mae cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn ac wyneb-yn-wyneb yn sicrhau y gall ymatebwyr gwblhau'r arolwg mewn ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u dewisiadau. Mae'r arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Mae TrC wedi ymrwymo i wneud ei wefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018. Felly, mae'r holl gyhoeddiadau ac allbynnau ystadegau yn hygyrch.

Rydym wedi cynnwys cwestiynau ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol i roi mewnwelediad i sut mae ymddygiad teithio yn effeithio ar wahanol grwpiau demograffig ac yn amrywio:

- Oedran
- Anabledd
- Rhywedd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil ac ethnigrwydd
- Cyfeiriadedd rhywiol.

**Data agored a chyfleoedd cysylltu:** Bydd set ddata flynyddol Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru gael gan Wasanaeth Data y DU o hydref 2026 a bydd yn cael ei llwytho i fyny i fanc data SAIL i ganiatáu cysylltu data.

**Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu dadansoddiad sy'n werthfawr i rhanddeiliaid, cynhaliwyd sawl sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae canlyniadau'r rhain ar gael ar [wefan TrC](#).

**Data cymharol rhwng dulliau:** Mae tri dull casglu data (gwe, ffôn a chyfweliadau wyneb-yn-wyneb) ar gael i ymatebwyr. Mae dadansoddiad yn dangos bod y data a gesglir ar draws y dulliau hyn yn gyffredinol yn gymharol. Byddwn yn parhau i adolygu hyn wrth i'r arolwg fynd rhagddo.

**Ystod eang o bynciau:** Gofynnir ystod eang o gwestiynau i ddefnyddwyr a rhai nad ydynt yn defnyddio naw dull trafndiaeth gwahanol (cerdded ac olwynion, beicio, bws, rheilffordd, car, tacsî, trafndiaeth gymunedol, awyrennau a fferïau). Mae ystod o gwestiynau demograffig wedi'u cynnwys i ganiatáu dadansoddiad yn ôl gwahanol nodweddion gwarchoddedig a dadansoddiadau eraill.

**Cwestiynau wedi'u profi:** Mae llawer o gwestiynau wedi'u profi'n wybyddol, ac mae'r arolwg wedi'i dreialu gydag ymatebwyr mewn dau waith peilot. Ble bo hynny'n bosibl, mae cwestiynau wedi'u halinio â [safonau a chanllawiau cytûn Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth \(GSS\)](#).

**Teclyn mapio arloesol:** Casglir data lleoliad teithiau gan ddefnyddio teclyn mapio ar-lein gan ddefnyddio mapiau'r Arolwg Ordans. Mae hyn yn caniatáu i fanwl leoliadau gael eu cofnodi, gan wella cywirdeb amcangyfrifon o bellter a hyd y daith. Mae'r teclyn map ar-lein hwn yn unigryw ymhlith arolygon trafndiaeth cyfredol.

## Cyfyngiadau

**Cyfnod amser cyfyngedig:** Mae'r data a gyflwynir yn y datganiad rhagarweiniol yn cwmpasu cyfnod gwaith maes o fis Mawrth i fis Hydref yn unig. Mae'r cyfnod hwn yn cwmpasu gwyliau'r haf ysgol, yn ogystal â chael mwy o oriau o olau haul a thywydd gwell fel arfer. Gall y ffactorau hyn effeithio ar ymddygiad teithio unigol. Nid yw'r data a gofnodwyd o reidrwydd yn gynrychioliadol o ymddygiad teithio dros flwyddyn lawn.

**Daearyddiaeth lefel is:** Mae Arolwg Teithio Cymru wedi'i gynllunio i gynhyrchu sampl gynrychioliadol o unigolion sy'n byw yng Nghymru ar lefel ranbarthol. Felly, nid yw data ar gyfer awdurdodau lleol a rhaniadau llai eraill ar gael ar gyfer un flwyddyn arolwg. Rhagwelwn yr angen i gyfuno sawl blwyddyn arolwg gyda'i gilydd i gynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd llai. Oherwydd y newidiadau mewn pwysoli ar gyfer yr amcangyfrifon hyn, rydym yn cynghori bod yn ofalus wrth werthuso effeithiau polisi ar y data ar y lefel hon.

**Anodd perfformio dadansoddiadau lluosog:** Efallai na fydd grwpiau demograffig llai, a grwpiau sy'n gofyn am ddadansoddiadau demograffig lluosog (er enghraifft, teithiau beicio gan fenywod dros 65), yn cael maint sampl digon mawr i gynhyrchu dadansoddiad cadarn a manwl gywir.

**Ddim yn gwbl gynhwysol o ran hygyrchedd:** Mae samplu yn ôl aelwyd gan ddefnyddio ffeil codau post y Post Brenhinol yn eithrio grwpiau penodol megis y rhai sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (er enghraifft, cartrefi gofal preswyl) a'r rhai heb breswylfa sefydlog. Nid yw unigolion o dan 16 oed yn gymwys i gwblhau'r arolwg.

Yn ogystal, mae'r dyluniad arolwg ar-lein yn methu sawl un o feini prawf WCAG 2.2, er bod gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â rhai eitemau.

**Sut mae'r rhyngrwyd ledled Cymru yn effeithio ar gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb:** Mae'r cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb yn gofyn am gysylltiad rhyngrwyd da er mwyn cwblhau'r dyddiadur teithio deuddydd o hyd. Lle nad yw hyn yn bosibl, cynhyrchwyd dyddiadur teithio papur all-lein i ganiatáu ymatebwyr i orffen yr arolwg. Mae'r data a gofnodwyd yn y modd hwn yn fwy disgrifiadol na defnyddio'r teclyn map, ac felly gall y data hyn fod yn llai cywir. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae data a gofnodwyd gan ddefnyddio'r dyddiadur all-lein yn cymharu â'r casgliad dyddiadur ar-lein.

**Dyddiadur teithio dros y ffôn:** Mae'r dyddiadur teithio yn declyn gweledol, rhyngweithiol ac felly mae'r profiad o gwblhau'r dyddiadur teithio trwy gyfweiliadau ffôn yn fwy o faich a disgrifiadol nag y profiad ar-lein neu mewn cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb. Gan fod cyfweiliadau ffôn yn ddewisol, ychydig iawn o ymatebwyr sy'n defnyddio'r modd hwn. Fodd bynnag, byddwn yn asesu pa mor wahanol yw'r data rhwng y ffôn a dulliau eraill, ac yn gweithio i ddod o hyd i atebion dros y tymor hwy.

**Camadrodd ymddygiad teithio:** Mae'r dyddiadur teithio yn dibynnu ar ymatebwyr sy'n hunan-adrodd eu teithiau. Mae gan hyn sawl anfantais, gan y gall ymatebwyr gamadrodd nifer y teithiau maen nhw wedi'u gwneud (naill ai'n fwriadol neu drwy anghofio). Mae gwiriadau dilysu wedi'u cynnwys fel rhan o'r arolwg ond ni ellir dileu'r ffynhonnell gwall hon yn gyfan gwbl.

**Diffyg ymateb:** Er bod y gyfradd gyfranogiad yn y ATCC yn uchel, mae cyfran sylweddol o'r sampl nad ydynt yn cymryd rhan (58.7% o aelwydydd cymwys). Mae cyfradd diffyg ymateb fel hyn yn gyffredin ar gyfer arolygon cymdeithasol. Mae pwysoli a dulliau eraill wedi'u cynllunio gyda hyn mewn golwg. Fodd bynnag, bydd diffyg ymateb yn dal i fod yn debygol o effeithio ar gywirdeb yr amcangyfrifon a gynhyrchir.

**Gwahanol ddulliau dethol:** Mae'r arolwg ar lefel unigol. Fodd bynnag, gan fod y llythyrau gwahoddiad yn cael eu hanfon at aelwydydd, rhaid i ddewis unigol ddigwydd. Mae hyn yn wahanol yn dibynnu ar y dull o gwblhau. Ar gyfer ymatebwyr sy'n cwblhau ar-lein, gall hyd at

ddau oedolyn (dros 16 oed) gwblhau'r arolwg. Mae cwblhau ar y ffôn ar gael ar gyfer un oedolyn yn yr aelwyd. Mae cyfweliadau wyneb-yn-wyneb yn ymgymryd â dewis ymatebwyr gan ddefnyddio'r grid Kish. Er nad yw'r cwblhau ar-lein yn wirioneddol ar hap, dangosodd profion nad oedd dull dethol unigol yn gwella cynrychiolaeth y sampl, gydag ymatebwyr yn anwybyddu'r meini prawf dethol. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r cwblhau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb yn wahanol dros amser i weld a yw'r canfyddiad hwn yn parhau.

**Cymharu ag arolygon eraill:** Nid yw'r Arolwg Teithio Cenedlaethol wedi'i gynllunio i fod yn uniongyrchol gymharol ag arolygon teithio eraill yn y DU ([Arolwg Teithio Cenedlaethol yr Adran Drafnidiaeth sy'n cwmpasu Lloegr](#), na chwaith Arolwg [Aelwydydd yr Alban](#)), nac [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#). O ganlyniad, rhaid cymryd gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau ochr-yn-ochr â data trafnidiaeth arall ar gyfer Cymru a gweddill y DU.

**Baich yr ymatebydd:** Mae'r arolwg fel arfer yn cymryd tua 40 munud i'w gwblhau, er bod hyn yn amrywio rhwng dull cwblhau. Rydym yn gwerthfawrogi y gall hyn fod yn faich ar ymatebwyr, a all effeithio ar y canlyniadau. Rydym yn parhau i adolygu cynnwys yr arolwg i ddeall sut y gallwn gyfyngu'r baich a roddir ar ymatebwyr wrth gwblhau'r arolwg.

## Cymhariaeth a chydlyniant

Lle bo'n bosibl, mae'r Arolwg Teithio yn defnyddio cwestiynau neu ddiffiniadau a ddefnyddir mewn manau eraill. Pan fo cwestiynau'n casglu gwybodaeth ddemograffig, neu wybodaeth am iechedd a lles ymatebydd, defnyddiwyd [Safonau Cytûn Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth](#).

Lle nad oes cyfieithiad Cymraeg cytûn ar gael, rydym wedi defnyddio cyfieithwyr i gynhyrchu fersiwn Gymraeg. Oherwydd natur y cyfieithiad, gall y rhain fod ychydig yn wahanol i'r fersiwn Saesneg.

Mae rhestr lawn o'r diffiniadau a ddefnyddir yn Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru wedi'i chyhoeddi ar wefan TrC. Rydym wedi diffinio'r gwahanol ddulliau trafnidiaeth yn fras yn unol â'r diffiniadau a ddefnyddir yn [Arolwg Teithio Cenedlaethol yr Adran Addysg](#).

Fodd bynnag, mae ymddygiadau teithio fel cyfran y prif ddull neu bellter y daith yn cael eu cofnodi'n wahanol i arolygon cenedlaethol eraill yn y DU ac mewn manau eraill. Gall y gwahanol nifer o ddyddiau sydd wedi'u cynnwys yn y dyddiadur teithio a'r amgylchedd cwblhau gwahanol gyfyngu ar gymhariaeth ag allbynnau o arolygon teithio eraill.

Mae'r dibenion teithio sydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Teithio yn debyg i'r rhai a gynhwysir yn arolwg teithio 'National Travel Survey' yr Adran Drafnidiaeth ac adran deithio Arolwg Aelwydydd yr Alban. Un gwahaniaeth allweddol yw bod Arolwg Teithio Cymru yn casglu gwybodaeth am deithiau pwrpasol yn unig. Felly, nid yw teithiau cerdded ar gyfer pleser neu ymarfer corff, neu i gerdded y ci yn cael eu casglu yn Arolwg Cymru ond fe'u casglir yn Lloegr (fel "Just walk") ac yn yr Alban ("Going for a walk"). Mae'r dibenion hyn yn cyfrif am oddeutu 10% o'r holl deithiau yn [Lloegr](#) a'r [Alban](#). Felly, efallai na fydd data ar gyfer teithiau cerdded ac olwynio yng Nghymru yn gymharol â'r cenhedloedd hyn.

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn defnyddio dulliau dylunio a chwblhau arolwg gwahanol i arolygon eraill. Gall y gwahaniaethau hyn effeithio ar gymhariaeth y canlyniadau hyd yn oed pan ofynnir yr un cwestiwn.

Gall y dulliau dylunio a chwblhau arolwg effeithio ar y ffigurau ar weithio o bell. Mae ATCC yn defnyddio'r un opsiynau cwestiynau ac ymateb ag Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth gymharu canlyniadau, oherwydd gwahaniaethau mewn dulliau casglu a fframiau sampl.

Rydym yn diffinio defnyddiwr Cymraeg fel ymatebydd sydd wedi ateb y gallent wneud unrhyw un o'r canlynol:

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg.

Nid yw hyn yr union yr un peth ag [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#), a ofynnodd gwestiynau "ie neu na" i ymatebwyr am eu gallu i ddeall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd am eu gallu i siarad Cymraeg, gydag ateb ychwanegol "na, ond gen i rywffaint o allu i siarad Cymraeg".

Yn ogystal, mae'r cwestiwn yn wahanol i'r cwestiwn a ofynnwyd yng Nghyfrifiad y DU (2021), a oedd dim ond yn caniatáu ateb "ie" neu "na".

Nid yw Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (ATCC) yn gwahaniaethu yn ôl darparwr gwasanaeth (er enghraifft, Trafnidiaeth Cymru, neu wasanaethau Great Western Railway). Fel y cyfryw, gall ffigurau ar gyfer defnydd neu foddhad fod yn wahanol i ffigurau gweithredwr-benodol.

Gan mai cyhoeddiad Ebrill 2026 yw'r cyntaf gan y ATCC, nid yw cymariaethau dros amser yn bosibl. Yn y dyfodol, bydd unrhyw addasiadau cwestiwn a'r effaith ar gymhariaeth yn cael eu hamlygu.

## Cyfraddau ymateb

Defnyddiwyd cwblhau'r ATCC yn llawn a rhannol ar gyfer dadansoddi. Er mwyn i gyflawniad rhannol gael ei gynnwys yn y set ddata, rhaid i'r ymatebydd fod wedi cwblhau hanner cyntaf yr holiadur a'r dyddiadur.

Mae nifer yr unigolion sy'n gymwys i gwblhau'r arolwg yn wahanol yn ôl y modd cwblhau. Ar gyfer cwblhau gwe, gall hyd at ddau oedolyn gwblhau'r arolwg. Dim ond un oedolyn all gwblhau'r arolwg dros y ffôn neu mewn cyfweliadau wyneb yn wyneb.

Mae hyn yn gwneud cyfrifo cyfraddau ymateb yn heriol, gan fod nifer yr oedolion a allai fod yn gymwys yn anhysbys ar gyfer cwblhau gwe. O ganlyniad, mae'r cyfraddau ymateb yn ôl aelwyd a'r cyfraddau ymateb yn ôl cyfanswm unigolion fesul aelwyd wedi'u cynnwys yn Nhabl 2.

Tabl 2: Cyfraddau ymateb

<b>Math cwblhau</b>	<b>Ymatebion</b>	<b>Cyfradd ymateb</b>
Ymatebion unigol	3,132	1.2 Unigolion fesul aelwyd sy'n ymateb
Ymatebion aelwydydd	2,688	41.3% o aelwydydd cymwys sydd ag o leiaf un ymateb
Cwblhau'n rhannol	15	0.2% o aelwydydd cymwys
Diffyg Ymatebion	3,819	57.9% o aelwydydd cymwys
Aelwydydd a samplwyd	7,094	
Aelwydydd cymwys	6,507	
Cyfeiriad segur (er enghraifft, amhreswyl neu amlwg heb ei feddiannu)	587	8.3% o'r holl aelwydydd a samplwyd

## Teithiau a gofnodwyd

Mae'r dyddiadur teithio yn casglu data ar deithiau a wnaed ar y ddau ddiwrnod cyn cwblhau'r ATCC. Gall yr ymatebydd gwblhau'r arolwg ar unrhyw ddiwrnod penodol, felly nid yw nifer y diwrnodau dyddiadur a gwmpesir yn gyfartal.

Rydym wedi arsylwi gostyngiad cyson yn nifer y teithiau a gofnodwyd ar yr ail ddiwrnod dyddiadur. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn ymddygiad dilys, yn hytrach unigolion yn adrodd eu patrymau teithio yn anghywir ar ddiwrnod 2.

Cymhwysir pwysau dyddiadur i addasu ar gyfer hyn, gan uwchbwysoli diwrnod 2 i gyd-fynd â chyfraddau diwrnod 1. Mae pwysau hefyd yn cael eu cymhwyso i ddsbarthu'r dyddiau dyddiadur yn gyfartal ar draws y pwysau, ac i sicrhau eu bod yn gyfartal ar draws misoedd a chwarteri y flwyddyn.

Dangosir y diwrnodau taith heb eu pwysoli a chyfanswm y teithiau a gofnodwyd yn Nhabl 3.

Tabl 3: Nifer y teithiau a gofnodwyd

Diwrnod dyddiadur	Diwrnod 1: Teithiau wedi'u cofnodi	Diwrnod 2: Teithiau wedi'u cofnodi	Cyfanswm y teithiau a gofnodwyd	Cyfran y teithiau a gofnodwyd
Dydd Llun	900	544	1,444	15.6%
Dydd Mawrth	744	592	1,336	14.4%
Dydd Mercher	911	591	1,502	16.2%
Dydd Iau	784	565	1,349	14.6%
Dydd Gwener	803	447	1,250	13.5%
Dydd Sadwrn	564	598	1,162	12.5%
Dydd Sul	694	533	1,227	13.2%
Cyfanswm	5,400	3,870	9,270	100.0%

## Cyfraddau ymateb yn ôl modd

Yn y set ddata ragarweiniol, cwblhaodd 72.4% o'r ymatebwyr y ATCC gan ddefnyddio'r we. Roedd cwblhau wyneb-yn-wyneb yn cyfrif am 26.4% o'r cyfanswm. Roedd cwblhau ffôn yn cyfrif am 1.2% o'r ymatebion, gan fod hynny'n dibynnu ar ymatebydd

Gwelsom fwy o deithiau a gofnodwyd fesul dyddiadur pan gwblhawyd yr arolwg wyneb yn wyneb neu dros y ffôn (CAPI sef Computer Assisted Personal Interviewing), fel y dangosir yn Nhabl 4.

Tabl 4: Teithiau a gofnodwyd yn ôl y dull o gwblhau

Modd	Diwrnod 1: Cyfanswm y teithiau	Diwrnod 2: Cyfanswm y teithiau	Cyfanswm y teithiau	Teithiau fesul person
Gwe wedi'i gwblhau	3,841	2,676	6,517	2.8
CAPI wedi'i gwblhau	1,559	1,194	2,753	3.4

## Cywirdeb

Mae'n hanfodol bod yr ystadegau a gynhyrchir yn amcangyfrif cywir o bobl Cymru. Mae gwallau samplu a di-samplu yn effeithio ar gywirdeb.

### Gwallau samplu

Mae gwall samplu yn digwydd wrth i wybodaeth gael ei chasglu o sampl o aelwydydd, yn hytrach na phoblogaeth gyfan Cymru. Mae maint y gwall samplu yn dibynnu ar faint y sampl a dyluniad yr arolwg. Yn gyffredinol, bydd maint sampl mwy yn lleihau maint y gwall samplu.

Lle mae dadansoddiadau sy'n cwmpasu nifer fach o unigolion, mae gwall samplu yn fwy. Cynghorir defnyddwyr i gymryd gofal wrth ddadansoddi canlyniadau gyda phoblogaethau bach.

Mae gwahanol samplau yn cynnwys gwahanol bobl, sydd â phatrymau ac ymddygiadau teithio gwahanol. Felly, bydd pob sampl gwahanol yn rhoi set wahanol o ganlyniadau. Mae'r amrywioldeb o samplu yn lleihau wrth i faint y sampl gynyddu. Mae cyfnodau hyder wedi'u cynnwys gyda'r amcangyfrifon i nodi ble mae'r gwir werth yn debygol o fod. Ar gyfer cyfwng hyder 95%, disgwylir y byddai 95% o'r ysbeidiau yn cynnwys gwir werth y boblogaeth pe bai'n cael ei ailadrodd sawl gwaith.

### Dyluniad arolwg

Mae'r ATCC yn defnyddio dyluniad arolwg cymhleth. Mae canolbarth Cymru wedi'i gorsamplu, ac mae'r arolwg wedi'i haenu ar lefel ranbarthol. Felly, mae tebygolrwydd gwahanol o gael eu cynnwys yn y sampl ar gyfer pob rhanbarth. Mae pwysau unigol wedi'u cymhwyso i gywiro'r gwahaniaethau rhanbarthol, ac i sicrhau bod y canlyniadau'n cyd-fynd â phroffil demograffig Cymru.

Mae'r dyluniad arolwg cymhleth yn ddull cost-effeithiol i sicrhau bod yr arolwg yn gynrychioliadol ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, mae'n llai ystadegol effeithlon na sampl ar hap syml. Gan ystyried yr effaith dylunio, mae'n rhoi'r "maint sampl effeithiol". Gan fod effaith dylunio i'r dyddiadur teithio hefyd, rydym hefyd yn adrodd am y "nifer effeithiol o deithiau" a gofnodwyd. Mae'r holl ddadansoddiad yn ystyried yr effaith ddylunio ar gyfer pob newidyn.

### Cyfnodau Hyder

Mae cyfnodau hyder 95% wedi'u cynhyrchu ar gyfer pob allbwn ATCC. Mae'r rhain yn ystyried effeithiau dylunio'r arolwg.

Mae amcangyfrifon gyda chyfwng hyder eang yn llai manwl gywir.

### Gwallau eraill

Mae'r rhain yn wallau sy'n digwydd yn y broses casglu data nad ydynt yn gysylltiedig â dyluniad y sampl. Ni ellir dileu'r gwallau hyn yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, rydym wedi cymryd camau i leihau cwmpas y gwall nad yw'n samplu lle bo hynny'n bosibl.

## Gwall peidio ag ymateb

Mae gwall diffyg ymateb yn digwydd wrth i rai unigolion ddewis peidio â chymryd rhan yn yr arolwg. Gall yr unigolion hyn fod ag ymddygiadau teithio gwahanol na'r rhai sydd wedi cwblhau'r arolwg.

Mae pwysau wedi'u cymhwyso i gyfrif am wahaniaethau rhwng y poblogaethau sy'n ymateb a phoblogaethau nad ydynt yn ymateb. Defnyddiwyd newidynnau daearyddiaeth, megis rhanbarth, statws gwledig-trefol a [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#), yn ogystal â newidynnau demograffig megis oedran a rhywedd i lunio'r pwysau. Nod hyn yw lleihau maint y gwall nad yw'n samplu oherwydd y ffactorau hyn.

## Gwall cwmpasu

Mae gwall cwmpasu yn digwydd lle nad yw'r ffrâm sampl yn cynrychioli'r boblogaeth darged. Mae Ffrâm Sampl Ffeil Cyfeiriadau Codau Post yn eithrio grwpiau penodol megis y rhai sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (er enghraifft, cartrefi gofal preswyl) a'r rhai heb breswylfa sefydlog. Nid yw ymddygiad teithio unigolion sy'n byw yn yr amgylchiadau hyn yn cael ei gofnodi.

## Gwall mesur

Gall ymatebwyr gamddeall cwestiynau, dehongli cwestiynau yn wahanol i ymatebwyr eraill, neu ddarparu atebion sy'n anghywir. Mae'r rhain yn ffynonellau gwall mesur.

Lle bo'n bosibl, mae cwestiynau wedi'u halinio â [safonau a chanllawiau cytûn GSS](#). Mae cwestiynau ac opsiynau ymateb o arolygon eraill y llywodraeth hefyd wedi'u defnyddio. Cafodd pob cwestiwn ATCC [adolygiad desg](#) yn Saesneg gan ddefnyddio'r system 'Questionnaire Appraisal System-99'. Profwyd cwestiynau a ystyriwyd yn gymhleth neu'n heriol [yn wybyddol](#), fel yr oedd elfen map rhyngweithiol y dyddiadur teithio. Cwblhawyd hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae testun cymorth hefyd ar gael o fewn yr arolwg i ddarparu diffiniadau, lle bo hynny'n briodol.

Trwy ddilyn y dull hwn, rydym wedi anelu at sicrhau bod pob ymatebydd yn deall ac yn dehongli cwestiynau'r arolwg yn yr un modd. Fodd bynnag, rydym wedi arsylwi gostyngiad cyson mewn teithiau a gofnodwyd ar yr ail ddiwrnod dyddiadur, yr ydym yn ystyried bod ymatebwyr yn adrodd eu hymddygiad yn anghywir. Mae pwysoli dyddiadur wedi'u cynllunio i gynyddu pwysoli teithiau a gofnodwyd ar yr ail ddiwrnod dyddiadur fel eu bod yn cyd-fynd â chyfradd y daith diwrnod cyntaf.

## Effeithiau modd

Mae effeithiau modd yn digwydd lle mae'r dull cwblhau yn effeithio ar sut mae'r ymatebydd yn ateb yr arolwg. Fel arolwg amlfoddol, rydym yn deall y gall y gwahanol ddulliau ymateb newid ymddygiad ymatebwyr.

Er enghraifft, gall presenoldeb gweithiwr maes ddylanwadu ar yr ymatebydd i ateb mewn ffordd fwy dymunol yn gymdeithasol na phe baent yn cwblhau ar-lein. Fel arall, gall cyfwelwyr gwaith maes helpu i gofio a chofnodi teithiau yn y dyddiadur teithio, gan arwain at lai o gamadrodd nag mewn amgylchedd gwe.

Mae'r ATCC wedi'i gynllunio fel bod y profiad wrth gwblhau wyneb-yn-wyneb neu ar-lein mor debyg â phosibl. Rydym yn deall bod gan gyfweliadau ffôn sawl gwahaniaeth, yn enwedig gan eu bod yn anweledol. Fodd bynnag, mae nifer y cyfweliadau ffôn yn parhau i fod yn fach.

Mae'r profiad o gwblhau'r dyddiadur teithio yn wahaniaeth sylweddol rhwng ymatebion ar y we a'r cyfweliadau wyneb-yn-wyneb a oedd yn wynebu problemau cysylltedd. Gan ddefnyddio'r dyddiadur all-lein, mae cyfwelwyr gweithwyr maes yn gofyn i ymatebwyr fod yn fwy disgrifiadol gyda'u lleoliadau i wella'r cywirdeb prosesu.

## Gwall prosesu

Efallai y bydd rhai gwallau yn cael eu cyflwyno wrth brosesu'r data.

Wrth gyfrifo'r pellter a'r hyd rhwng tarddiad a chyrchfan ymatebydd, defnyddir y llwybr mwyaf uniongyrchol sydd ar gael, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadu TravelTime Routes. Er enghraifft, mae teithiau ar fws yn defnyddio'r pellter gyrru mwyaf uniongyrchol rhwng y safleoedd bysiau, yn hytrach na'r llwybr bws go iawn. Ar gyfer pob modd, ni fydd y pellter a'r hyd wedi'i brosesu yn cyfateb i wir bellter a hyd y daith.

Efallai y bydd gwall hefyd yn cael ei gyflwyno pan fydd cyfwelwyr gweithwyr maes yn mapio'r lleoliadau a gofnodwyd ar y dyddiadur all-lein. Lle bo'n bosibl, gofynnir i ymatebwyr ddarparu mwy o fanylion am eu cyrchfannau er mwyn lleihau faint o gamgymeriadau prosesu.

## Amseroldeb a phrydlondeb

Cyhoeddwyd y data rhagarweiniol ym mis Ebrill 2026, tua phum mis ar ôl diwedd y cyfnod gwaith maes (sypiau Mawrth - Awst). Mae'r cyfnod hwn wedi'i gadw mor fyr â phosibl i sicrhau bod y canlyniadau mor amserol â phosibl tra'n dal i fod yn gwbl sicr o ansawdd.

Rydym wedi dewis cyhoeddi canlyniadau rhagarweiniol yn seiliedig ar chwe mis o gasglu data ar gyfer blwyddyn arolwg 2025/26. Mae hyn er mwyn mynd i'r afael ag absenoldeb data ar lefel Cymru ers 2012. Yn y blynyddoedd i ddod, byddwn ond yn cyhoeddi set ddata flynyddol yn yr Hydref bob blwyddyn.

## Cyfrinachedd a diogelwch data

### Cyfrinachedd data

Anfonir llythyr i'r aelwydydd a ddewiswyd fel rhan o'r sampl yn eu [gwahodd](#) i gwblhau'r arolwg. Wedi'i gynnwys gyda'r llythyr gwahoddiad mae [taflen Cwestiynau Cyffredin](#). Hysbysir ymatebwyr bod eu cyfranogiad yn wirfoddol ac y bydd eu hatebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

Casglir gwybodaeth ATCC am resymau o ddiddordeb y cyhoedd. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan ymatebwyr yn gyfrinachol ac nid yw'n cael ei throsglwyddo i unrhyw un y tu allan i NatCen neu'r adran ystadegau yn TrC mewn ffurf y gellid ei defnyddio i'w hadnabod. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ein [hysbysiad preifatrwydd](#).

Darperir rhif ffôn i ymatebwyr gysylltu ag Adran Gweithrediadau NatCen os oes ganddynt unrhyw ymholiadau. TrC sy'n gyfrifol am ymateb i ymholiadau yn Gymraeg.

## Diogelwch

Mae gan gyfweilwyr gwaith maes a chodwyr o bell (sy'n cynnal mewnbynnu data ar gyfer y dyddiadur teithio all-lein) liniadur gwaith pwrpasol ac mae data yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol trwy NatCen trwy gasgliad rhynggrwyd diogel. Mae'r gliniaduron hyn wedi'u hamgryptio Pretty Good Privacy (PGP) ac mae ganddynt fewngofnodi cyfrif diogel (a reolir trwy 'Microsoft Active Directory') ac mae angen newidiadau cyfrinair bob 30 diwrnod. Mae gan y gweinyddwyr y mae'r data yn cael ei lanlwytho iddynt fesurau diogelwch uchel ar waith ac mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r timau perthnasol. Cynhelir y datblygiad yn unol â'r ISO27001 ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch.

## Hygyrchedd

Gellir cwblhau'r ATCC ar-lein, dros y ffôn neu mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb yn Gymraeg a Saesneg. Mae hyn yn caniatáu i unigolion gwblhau'r arolwg mewn ffordd sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u dewisiadau. Mae llythyrau gwahoddiad ar gael mewn print bras neu mewn Braille.

Mae'r fersiwn ar-lein o'r arolwg wedi'i asesu yn erbyn WCAG 2.2., gyda [Datganiad Hygyrchedd](#) cysylltiedig. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael ag eitemau sy'n methu meini prawf WCAG 2.2. Mae mapiau wedi'u heithrio rhag adolygiadau hygyrchedd ar-lein, ac rydym yn deall y gallai hyn fod yn rhwystr i gwblhau ar-lein neu wyneb-yn-wyneb. Mae gwaith ychwanegol yn mynd rhagddo i wella hygyrchedd, ochr yn ochr â chynnig opsiynau cwblhau eraill i ymatebwyr.

Mae'r holl gyhoeddiadau ac allbynnau ystadegol yn hygyrch. Mae'r holl gynnwys ar gael yn Gymraeg a Saesneg.